# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Cynigion arbennig*

## 7 Cynigion arbennig: atodol

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo rhan o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad alcohol amleitem, neu am un pris neu am bris arbennig, o gryfder gwahanol i'r alcohol arall a gyflenwir yn y trafodiad neu am y pris hwnnw.

(2) Mae'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn y trafodiad neu am y pris hwnnw i gael ei gyfrifo drwy ychwanegu'r isafbris cymwys am bob cryfder o alcohol a gyflenwir yn y trafodiad neu am y pris.

(3) Mae cyfeiriadau yn adran 6 at alcohol yn cael ei gyflenwi ynghyd â nwyddau eraill a gwasanaethau yn cynnwys cyfeiriadau at drafodiadau pan fo alcohol yn cael ei ddarparu ynghyd â nwyddau eraill a gwasanaethau, ac—

- (a) y cyflenwir y nwyddau eraill neu'r gwasanaethau am bris, ond
- (b) y disgrifir yr alcohol fel pe bai'n cael ei gyflenwi yn rhad ac am ddim.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 7.